# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (O BELL TRWY TEAMS)

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Mercher, 24 Chwefror 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd M.Harvey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | K.Jones, A.Evans, A.Jarrett, C.Griffiths, N.Pearce, S.Rees, H.Jones, C.Furlow-Harris, R.Headon, C.Plowman, J.Woodman-Ralph a/ac C.John |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave |

1. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Adroddiad Blynyddol  2019-2020 ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2019

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2019 i'r aelodau ar gyfer y cyfnod 2019-2020, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cafwyd trafodaethau ynghylch Amcan Cydraddoldeb 6 - Gwella mynediad i'r amgylchedd drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill. Holodd yr aelodau a oedd unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â gwasanaeth Shopmobility yn cael ei leoli yng nghanol tref Castell-nedd er mwyn gwella'r defnydd ohono. Cynghorwyd aelodau fod y

gwasanaeth Shopmobility wedi'i leoli yn y maes parcio aml-lawr newydd ar hyn o bryd, i roi mynediad ar unwaith i ddefnyddwyr yn syth ar ôl iddynt barcio'u cerbyd. Nodwyd hefyd y bu gostyngiad mewn defnydd oherwydd effaith y pandemig ac yn dilyn adferiad y pandemig, gobeithir y byddai defnydd o'r gwasanaeth yn cynyddu.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Adroddiad Cynnydd Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg - mis Hydref 2019 - Mawrth 2020

Cyflwynodd swyddogion yr adroddiad cynnydd Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer y cyfnod o fis Hydref 2019 i fis Mawrth 2020.

Nododd aelodau yr effaith yr oedd COVID-19 wedi'i chael ar hyrwyddo'r Gymraeg, fodd bynnag nodwyd bod yr adroddiad cynnydd ar gyfer y cyfnod ychydig cyn dechrau'r pandemig. Nodwyd, dros y flwyddyn ddiwethaf mae'n debygol y byddai effaith ar yr adroddiad cynnydd ar gyfer y cyfnod 2020-21, fodd bynnag roedd nifer cadarnhaol o bobl wedi manteisio ar gyrsiau hyfforddiant Cymraeg rhithwir.

Mynegwyd pryder ynghylch y golled o'r Gymraeg yn cael ei defnyddio ar lafar, yn dilyn cau ysgolion oherwydd y pandemig, ar effaith y byddai hyn wedi'i chael ar fyfyrwyr. Ystyriodd swyddogion y pryderon a godwyd a sicrhawyd yr aelodau, wrth i ddisgyblion ddechrau dychwelyd i'r ysgol, y byddai'n flaenoriaeth iddynt gynnal adolygiad lleol i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i golli addysg.
Canmolodd yr aelodau yr athrawon am eu gwaith o ddarparu cefnogaeth ac addysg i ddisgyblion yn ystod y pandemig.

Nodwyd bod Adnoddau Dynol yn gallu adrodd ar nifer y gweithwyr sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg drwy'r porth gweithwyr, a gofynnodd yr aelodau am y ffigur hwn. Hysbysodd swyddogion yr aelodau y byddent yn casglu'r wybodaeth hon ynghyd y tu hwnt i'r cyfarfod.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu Corfforaethol - Adroddiad Cynnydd

Darparwyd diweddariad hanner blwyddyn i'r aelodau am y cynnydd a wnaed ar y Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer 2020-2021. Nodwyd bod y cynllun gweithredu'n adlewyrchu'r materion llywodraethu a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y cyngor ar gyfer 2019-2020 a adroddwyd i'r Cabinet ar 21 Mai 2020.

O fewn y Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu, holodd yr aelodau  am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau cyfreithlon pe na bai modd defnyddio'r Protocol Camau Gweithredu Brys.  Hysbysodd swyddogion yr aelodau fod y camau gweithredu hyn yn cael eu cymryd i sicrhau y gallai penderfyniadau gael eu gwneud o hyd mewn unrhyw sefyllfa. Nodwyd y rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Corfforaethol pe na bai modd cysylltu â'r Gweithrediaeth.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad

**CADEIRYDD**